TGAU

# CBAC TGAU Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

Uned 1: Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru

Modern

Adran A: Gwrthryfeloedd a Phrotest yng Nghymru, tua 1831–tua 1891

Adran B: Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif, tua 1914–tua 1959

Addysgu o 2026

Dyfarnu o 2028



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

Cynnwys


| | |
|---|---|
| Papur Cwestiynau | 1 |
| Cynllun Marcio | 8 |
| Grid mapio | 30 |


SAMPL


**Hawlfraint**

© WJEC CBAC Cyfyngedig 2024.




© WJEC CBAC Ltd 2024.

TGAU

3130NC0-1

**TGAU Hanes – Uned 1**
**Astudiaeth fanwl o hanes Cymru**
**1: Modern**

**1 awr**
**DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL**

SAMPL

**Deunyddiau ychwanegol**

Llyfryn ateb pinc 16 tudalen CBAC.

**Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr**

Atebwch bob cwestiwn yn **naill ai** Adran A **neu** Adran B.

Dylid ysgrifennu atebion i gwestiynau 3b, 4b / 7b, 8b mewn testun parhaus (brawddegau llawn a pharagraffau).

Defnyddiwch inc neu feiro du. **Peidiwch** â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb ar wahân. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar flaen eich llyfryn ateb.

Defnyddiwch ddwy ochr y papur.

Ysgrifennwch rif y cwestiwn yn y ddau flwch ar yr ochr chwith ar ddechrau pob ateb, er enghraifft | 0 | 1 |

Gadewch o leiaf dwy linell rhwng pob ateb.

**Gwybodaeth i ymgeiswyr**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Mae'n bosibl bod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

Gall y ffynonellau a ddefnyddir gynnwys geiriau nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio'n gyffredin ac sydd bellach yn cael eu hystyried yn derminoleg ddifrïol. Mae eu cynnwys yn adlewyrchu cyfnod a lleoliad fersiwn wreiddiol y ffynonellau hyn.



© WJEC CBAC Ltd 2024.

Atebwch bob cwestiwn yn **naill ai** Adran A **neu** Adran B.

## Adran A

### 1.5 Gwrthryfeloedd a Phrotest yng Nghymru, tua 1831–tua 1892

**0 1** Atebwch **bob** rhan o Gwestiwn 1.

Dewiswch yr atebion cywir i'r cwestiynau canlynol gan ddefnyddio'r tabl isod. **[5]**

**(a)** Beth oedd enw teulu meistri haearn Cyfarthfa?

**(b)** Pryd digwyddodd y ddihangfa o dloty Caerfyrddin?

**(c)** Pryd cafodd y Ddeddf Diwygio Mawr ei phasio?

**(ch)** Beth oedd enw'r ddrama ym 1854 a gafodd ei hysgrifennu mewn ymateb i Adroddiad Comisiynwyr yr Ymchwiliad i Gyflwr Addysg yng Nghymru?

**(d)** Ym mhle sefydlwyd y Gynghrair i Wrthwynebu'r Degwm?

| | | |
|---|---|---|
| Yn y Llyfr Hwn | Teulu'r Guest | 1832 |
| 1891 | Brad y Llyfrau Gleision | Teulu'r Crawshay |
| Llanarmon-yn-Iâl | 1843 | Corwen |

**0 2** Esboniwch pam y digwyddodd Terfysgoedd Beca. **[10]**



© WJEC CBAC Ltd 2024.

**0 3** Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb rhan (b) mewn testun parhaus.

**(a)** Disgrifiwch y protestiadau a ddigwyddodd yn ystod Gwrthryfel Merthyr. **[5]**

**(b)** Pa mor werthfawr yw **Eitem 1** i'n helpu ni i ddeall digwyddiadau Gwrthryfel Merthyr? **[15]**

| **Eitem 1** | Addasiad o gofnod Wikipedia ar Wrthryfel Merthyr (wedi'i gyrchu yn 2024). Gwyddoniadur rhyngrwyd yw Wikipedia y gall unrhyw gael mynediad ato a'i olygu. |
|---|---|
| Gwrthryfel Merthyr 1831 oedd penllanw treisgar blynyddoedd lawer o anniddigrwydd dig ymhlith poblogaeth dosbarth gweithiol Merthyr Tudful a'r ardal gyfagos. Y Gwrthryfel oedd y tro cyntaf i'r faner goch gael ei defnyddio fel symbol o brotestio dosbarth gweithiol yn y Deyrnas Unedig. | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| 0 | 4 |
|---|---|

Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb rhan (b) mewn testun parhaus.

**(a)** Rhowch amlinelliad o fethiannau tymor byr Siartiaeth. **[5]**

**(b)** I ba raddau y mae **Eitem 2** ac **Eitem 3** yn eich perswadio bod Gwrthryfel Casnewydd yn fygythiad i'r llywodraeth? **[20]**

| | |
|---|---|
| **Eitem 2** | Dehongliad Kenneth Budd, arlunydd o Loegr, o Wrthryfel Casnewydd yn ei furlun The *Chartist Mural* (a grëwyd yn 1978), a oedd wedi'i leoli yng nghanol dinas Casnewydd. Mae'r faner yn nodi "300 etholaeth a nifer cyfartal o etholwyr". |




| | |
|---|---|
| **Eitem 3** | Mae Syr John Campbell, a oedd yn erlyn, yn rhoi ei farn ar Wrthryfel Casnewydd i'r rheithgor, mewn trawsgrifiad o gofnodion swyddogol treial John Frost yn Nhrefynwy (1839) |

Wrth gyrraedd Casnewydd, nod y Siartwyr oedd ymosod ar y milwyr oedd yno. Roedden nhw eisiau cymryd rheolaeth dros y dref. Doedd hwn ddim yn gyfarfod i ddeisebu'r Frenhines na'r Senedd. Eu nod oedd defnyddio grym arfog i newid cyfraith y wlad hon.

**DIWEDD ADRAN A**

**Trowch drosodd ar gyfer Adran B.**



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Adran B

**Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif, tua 1914 – tua 1959**

**0 5** Atebwch **bob** rhan o Gwestiwn 5.

Dewiswch yr atebion cywir i'r cwestiynau canlynol gan ddefnyddio'r tabl isod. **[5]**

**(a)** Beth yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio am y gred bod ymladd rhyfeloedd yn anghyfiawn?

**(b)** Pryd ddigwyddodd Cwymp Wall Street?

**(c)** Beth yw'r term a ddefnyddir am gyfyngu ar y bwyd y gallai pobl ei brynu yn ystod y rhyfel?

**(ch)** Pwy sefydlodd y GIG yn 1948?

**(d)** Beth yw'r term a ddefnyddir am y grŵp o fewnfudwyr o'r Ymerodraeth Brydeinig a'r Gymanwlad a ddaeth i fyw a gweithio yn y Deyrnas Unedig ar ôl yr Ail Ryfel Byd?

| | | |
|---|---|---|
| Ymgiliad | 1929 | Y Lluoedd Cynorthwyol |
| Saunders Lewis | Aneurin Bevan | Heddychiaeth |
| Dogni | 1919 | Cenhedlaeth Windrush |

**0 6** Esboniwch pam y bu newidiadau mewn cyfleoedd hamdden yng Nghymru yn ystod y 1950au. **[10]**



© WJEC CBAC Ltd 2024.

**0 7** Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb rhan (b) mewn testun parhaus.

**(a)** Rhowch amlinelliad o'r cynnydd yn y gefnogaeth i Blaid Cymru yn ystod y 1950au. **[5]**

**(b)** Pa mor werthfawr yw **Eitem 1** i'n helpu i ddeall dylanwad Cenedlaetholdeb Cymreig yn ystod y 1950au? **[15]**

| **Eitem 1** | David Williamson, newyddiadurwr gwleidyddol, yn ysgrifennu yn yr erthygl "The Story of the outrage that has shaped Welsh politics for more than five decades" ar wefan newyddion *Wales Online* (2016) |
|---|---|
| Mae boddi pentref Cymraeg Capel Celyn er mwyn creu cronfa ddŵr i gyflenwi dŵr i drigolion Lerpwl yn ddigwyddiad allweddol yn hanes modern Cymru. Roedd dicter y byddai trigolion Cymraeg eu hiaith yn cael eu symud a bod adnoddau naturiol yn cael eu cymryd oddi wrth Gymru. Roedd yna apeliadau ar gyngor dinas Lerpwl i achub y pentref, ond doedden nhw ddim yn ddigon i ddod â'r cynlluniau i ben. | |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd 2024.

**0 8** Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb rhan (b) mewn testun parhaus.

**a)** Disgrifiwch ymateb yr awdurdodau i Derfysgoedd Hil De Cymru yn 1919. **[5]**

**b)** I ba raddau mae **Eitem 2** ac **Eitem 3** yn eich perswadio bod tensiynau ar sail hil
yn arwyddocaol yn Ne Cymru yn 1919? **[20]**

| **Eitem 2** | Addasiad o'r llyfr hanes *Black and British – A Forgotten History* gan yr hanesydd a'r darlledwr teledu David Olusoga (2016) |
|---|---|
| Ym mis Mehefin, daeth trais i strydoedd Casnewydd yng Nghymru. Ymosodwyd ar lety dynion du a chartrefi teuluoedd du, a'u difetha. Fe ymledodd y trais hiliol i borthladd Y Barri yng Nghymru, ac erbyn 11 Mehefin roedd wedi lledaenu i Tiger Bay yng Nghaerdydd. Fe barodd y terfysgoedd yng Nghaerdydd am wythnos a chollodd tri dyn eu bywydau. Roedd gangiau mawr yn crwydro'r strydoedd yn chwilio am ddynion du. | |

| **Eitem 3** | Adroddiad yn y papur newydd o Gymru, *The Western Mail* (12 Mehefin 1919) |
|---|---|
| Aeth y dorf o derfysgwyr i Herbert Street ym Mae Caerdydd lle'r oedd gwybodaeth wedi cael ei rhannu am dŷ lle'r oedd sawl dyn du yn byw. Ni fu unrhyw oedi. Ymosododd y dorf ar y tŷ ar unwaith, gan dorri'r ffenestri a mynnu eu ffordd i mewn i'r adeilad. Cafodd y tu mewn ei ddinistrio'n llwyr a thaflwyd y dodrefn i'r ffordd. | |

**DIWEDD Y PAPUR**

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## CYNLLUN MARCIO

### Canllawiau i arholwyr

**Egwyddorion marcio generig**

- Marciau cyfan (nid hanner marciau na ffracsiynau eraill) a roddir bob amser.

- Dim ond pan fydd cwestiwn yn asesu ansawdd sillafu, atalnodi a gramadeg yn benodol fel y nodir yn y cynllun marcio y dylid barnu atebion ar sail y nodweddion hyn. Fodd bynnag, dylai'r ystyr fod yn ddiamwys.

- Dylid rhoi marciau gan ddefnyddio'r ystod lawn o farciau a ddiffinnir yn y cynllun marcio ar gyfer y cwestiwn (fodd bynnag; gall ansawdd ymatebion yr ymgeisydd a welir gyfyngu ar y gallu i ddefnyddio'r ystod marciau lawn).

- Rhoddir marciau yn gyfan gwbl ar sail y gofynion a ddiffinnir yn y cynllun marcio. Ni ddylid rhoi marciau gyda throthwyon gradd na disgrifyddion gradd mewn golwg.

**Marcio cadarnhaol**

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi marciau am yr hyn mae'r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu'r dull o'i gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ymateb da iawn ennill marciau llawn ac i ymateb gwael iawn beidio ag ennill unrhyw farciau o gwbl. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Yn aml, mae cynlluniau marcio'n cynnwys rhestr o bwyntiau y gall ymgeiswyr eu cynnwys yn eu hatebion. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr. Mae cynnwys *'Dylid rhoi marciau am unrhyw ymateb dilys arall'* (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu ar gyfer amrywiadau posibl yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio'n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid oes gofyniad penodol o fewn cwestiwn, gellir rhoi marciau i ymgeiswyr lle bo'r ateb yn gywir ond wedi'i fynegi yn eu geiriau eu hunain.

**Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau**

Mae cynlluniau marcio cwestiynau sy'n seiliedig ar fandiau mewn dwy ran; y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion yr ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodwyd uchod, ni fwriedir i gynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac ni ddylai ymgeiswyr orfod cynnwys yr holl gynnwys dangosol i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni ddylid rhoi unrhyw farciau.

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd 2024.

Dylid bob amser bod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hyn yn golygu bod marciau ar gyfer ymateb pob ymgeisydd yn cael eu cronni am ddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth briodol: Nid ydynt yn cael eu didynnu o uchafswm ar sail gwallau neu hepgoriadau.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hwn.

**Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifyddion yn cyfateb i'r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ymateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw ateb ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o gynnwys band 3, byddai'r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a roddir yn agos at ben uchaf band 2 o ganlyniad i'r cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Yn ystod y broses safoni (y gynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau mae'r Uwch Arholwr wedi dyfarnu marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Caiff arholwyr eu hatgoffa y dylen nhw edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc maen nhw'n eu rhoi yn briodol i'r ateb a roddwyd.

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Cynllun marcio ar gyfer Adran A

| Cwestiwn 1 | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (a) | Beth oedd enw teulu meistri haearn Cyfarthfa? | | | | |
| | **Teulu'r Crawshay** | 1 | | | 1 |
| (b) | Pryd ddigwyddodd y ddihangfa o dloty Caerfyrddin? | | | | |
| | **1843** | 1 | | | 1 |
| (c) | Pryd cafodd y Ddeddf Diwygio Mawr ei phasio? | | | | |
| | **1832** | 1 | | | 1 |
| (ch) | Beth oedd enw'r ddrama ym 1854 a gafodd ei hysgrifennu mewn ymateb i Adroddiad Comisiynwyr yr Ymchwiliad i Gyflwr Addysg yng Nghymru? | | | | |
| | **Brad y Llyfrau Gleision** | 1 | | | 1 |
| (d) | Ym mhle sefydlwyd y Gynghrair i Wrthwynebu'r Degwm? | | | | |
| | **Llanarmon-yn-Iâl** | 1 | | | 1 |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| Cwestiwn 2 | | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|
| Esboniwch pam y digwyddodd Terfysgoedd Beca. | | **[10]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Achos uniongyrchol Terfysgoedd Beca oedd gwrthwynebiad i'r tollau ar ffyrdd yn Ne Cymru yr oedd ffermwyr yn gorfod eu talu er mwyn gallu cludo eu da byw a'u cynnyrch i'r farchnad. Roedd tyddynnod ffermio yn ymylol yn ystod y cyfnod hwn felly roedd cost ychwanegol y tollau yn ei gwneud bron yn amhosibl i ffermwyr oedd yn berchen ar ffermydd bach neu'n eu rhentu wneud unrhyw arian. Dyma pam y cyfeiriwyd eu dicter tuag at ymosod ar y tollbyrth.
- Awydd i osgoi byw mewn tlodi oedd yn gyrru'r dicter yn y cyfnod hwn. Roedd Deddf y Tlodion 1834 yn golygu y byddai'n rhaid i bobl a oedd yn rhy dlawd i gynnal eu hunain neu eu teuluoedd fyw dan amodau llym y tloty. Roedd twf poblogaeth ledled Cymru eisoes wedi arwain at fwy o gystadleuaeth am dir a swyddi, a dyna pam yr oedd mor bwysig i ffermwyr ennill yr arian y byddai ei angen arnynt er mwyn osgoi colli eu ffermydd a'u bywoliaeth.
- Roedd drwgdeimlad tuag at y landlordiaid cyfoethog, Anglicanaidd, Saesneg eu hiaith hefyd yn rheswm pwysig dros y terfysgoedd. Y landlordiaid hyn a osododd y tollau ar y ffyrdd ac a oedd yn pwyso ar y ffermwyr tyddyn i roi'r gorau i'w tyddynnod er mwyn iddynt allu sefydlu, rhentu neu werthu ffermydd mwy o ran maint a mwy proffidiol. Y landlordiaid hyn hefyd a osododd y degwm yr oedd yn rhaid i anghydffurfwyr Cymreig ei dalu i Eglwys Loegr.

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| Band | AA1 | AA2 |
|---|---|---|
| **5** | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. | **5 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| **4** | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. | **4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| **3** | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. | **3 marc**<br>• Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson. |
| **2** | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. | **2 farc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd |
| **1** | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. | **1 marc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| Cwestiwn 3a | | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|
| Disgrifiwch y protestiadau a ddigwyddodd yn ystod Gwrthryfel Merthyr. | | [5] |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Cyfarfu miloedd o weithwyr ar Gomin Waun uwchben Dowlais ar 30 Mai 1831 i fynnu bod y toriadau cyflog a osodwyd gan y teulu Crawshay wythnos ynghynt yn cael eu diddymu.
- Y diwrnod canlynol ymgasglodd torf o weithwyr i atal beilïaid rhag cymryd eiddo o dŷ Lewis Lewis, er iddyn nhw lwyddo i gymryd ei gist. Fe wnaethon nhw helpu Lewis i gael ei eiddo yn ôl oddi wrth y beilïaid. Yna aeth y dorf ymhellach, gan ymweld â thai eraill ym Merthyr, i ddod o hyd i eiddo a gymerwyd gan y beilïaid a'i ddychwelyd. Arweiniodd hyn at aflonyddu ar feilïaid, benthycwyr arian a swyddogion eraill a oedd yn gweithio i Gwrt y Deisyfion.
- Arweiniodd ymdrechion yr awdurdodau i adennill rheolaeth at ymateb mwy treisgar gan y protestwyr. Pan gyrhaeddodd milwyr o Aberhonddu, roedd ysgarmes lle cafodd 20 o brotestwyr eu lladd ac un milwr ei anafu. Ymosododd terfysgwyr ar filwyr oedd yn dod o Gastell-nedd ac atal confoi o arfau rhag dod o Aberhonddu.

| Band | AA1 |
|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| 4 | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| 2 | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| 1 | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| 0 | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| Cwestiwn 3b | | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|
| Pa mor werthfawr yw **Eitem 1** i'n helpu i ddeall digwyddiadau Gwrthryfel Merthyr?<br><br>**Eitem 1:** Addasiad o gofnod Wikipedia ar Wrthryfel Merthyr (wedi'i gyrchu yn 2024). Gwyddoniadur rhyngrwyd yw Wikipedia y gall unrhyw gael mynediad ato a'i olygu.<br><br>Gwrthryfel Merthyr 1831 oedd penllanw treisgar blynyddoedd lawer o anniddigrwydd dig ymhlith poblogaeth dosbarth gweithiol Merthyr Tudful a'r ardal gyfagos. Y Gwrthryfel oedd y tro cyntaf i'r faner goch gael ei defnyddio fel symbol o brotestio dosbarth gweithiol yn y Deyrnas Unedig. | | **[15]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Mae'r eitem yn werthfawr i'n helpu i ddeall digwyddiadau Gwrthryfel Merthyr gan ei bod yn disgrifio'r gwrthryfel fel digwyddiad treisgar oedd yn cynnwys pobl dosbarth gweithiol Merthyr Tudful. Fodd bynnag, mae ei werth yn gyfyngedig gan nad yw'n dweud dim am yr hyn a ysbrydolodd y trais hwn, na bod y trais yn ymateb i'r ffaith bod milwyr wedi eu defnyddio i dawelu'r brotest.
- Mae gwerth i'r eitem hefyd gan ei bod yn nodi bod defnyddio'r faner goch fel rhan o'r brotest hon wedi arwain at ddod yn symbol o brotest dosbarth gweithiol yn y DU. Ond mae hyn hefyd yn cael ei danseilio gan y diffyg esboniad o gwynion y protestwyr, sef bod eu dicter wedi ei gyfeirio at y beilïaid a'r Llys Deisyfion a oedd wedi cymryd eiddo aelodau eraill o'r gymuned i dalu eu dyledion, yn hytrach na'i fod wedi ei gyfeirio at y llywodraeth.
- Mae'n debyg bod y wybodaeth y mae'r eitem hon – sy'n ddehongliad – yn ei chynnwys yn gywir gan ei bod yn seiliedig ar ymchwil, er bod anhysbysrwydd yr awdur yn golygu na allwn fod yn siŵr sut y mae wedi dod o hyd i'r wybodaeth hon, nac ychwaith os yw'r profiad ganddo i ddehongli gwybodaeth yn gywir.
- Gellir awgrymu hefyd bod gwerth y dehongliad yn cael ei gyfoethogi gan ba mor hir ar ôl y digwyddiadau a ddisgrifir y cafodd ei ysgrifennu, gan ganiatáu i'r awdur gynnwys yr ymchwil diweddaraf. Ar y llaw arall, gallai'r safbwyntiau a fynegir gael eu tanseilio oherwydd ei bod yn wefan gyhoeddus y gallai unrhyw un ei golygu.
- Ar y cyfan, gellid awgrymu bod yr eitem yn werthfawr gan ei bod yn rhoi trosolwg byr o ddigwyddiadau Gwrthryfel Merthyr, er nad yw'n ceisio esbonio cefndir y gwrthryfel. Neu gellir dadlau bod ffactorau cyfyngol fel anhysbysrwydd yr awdur neu awduron sy'n ysgrifennu yn y parth cyhoeddus sy'n ei gwneud yn llai, yn hytrach nag yn fwy gwerthfawr er mwyn ein helpu ni i ddeall y mater hwn.



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| Band | AA2 | AA3 |
|---|---|---|
| **5** | **5 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **9–10 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda chefnogaeth gynhwysfawr.<br>• Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus. |
| **4** | **4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **7–8 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda lefel dda o gefnogaeth.<br>• Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus. |
| **3** | **3 marc**<br>• Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson. | **5–6 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd, gyda rhywfaint o gywirdeb.<br>• Barn anghyson wedi'i chyrraedd gyda rhywfaint o gefnogaeth. |
| **2** | **2 farc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd | **3–4 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau.<br>• Barn anghyflawn wedi'i chyrraedd heb fawr o gefnogaeth. |
| **1** | **1 marc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau.<br>• Barn arwynebol wedi'i chyrraedd. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| Cwestiwn 4a | | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|
| Rhowch amlinelliad o fethiannau tymor byr Siartiaeth. | | **[5]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Gwrthodwyd pob un o dair deiseb y Siartwyr (1839, 1842 a 1848) gan Aelodau Seneddol ar y pryd. Ni phasiwyd unrhyw ddeddfau yn y tymor byr o ganlyniad i'r deisebau hyn mewn perthynas â'r bleidlais, cyflwyno system wleidyddol fwy cyfartal na dileu'r cyfyngiadau ar bwy a allai ddod yn AS.
- Cafodd Siartiaeth ei rhannu rhwng y rhai oedd yn cefnogi dau ddull gwahanol o gyflawni ei nodau - y Siartwyr 'grym moesol' oedd am ddefnyddio dulliau perswadiol fel y ddeiseb ac areithiau i ddwyn perswâd ar y gwleidyddion, a'r Siartwyr 'grym corfforol' oedd am ddefnyddio trais i gyflawni eu nodau.
- Er bod llawer o gefnogaeth i Siartiaeth ymhlith y dosbarth gweithiol, roedd y dosbarth canol yn cael eu denu fwyfwy tuag at y system wleidyddol bresennol a dyna pam y gwnaethon nhw helpu i gyfyngu ar orymdeithiau'r Siartwyr.

| Band | AA1 |
|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| 4 | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| 2 | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| 1 | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| 0 | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd 2024.

**Cwestiwn 4b** | **Cyfanswm y Marciau**

I ba raddau mae **Eitem 2** ac **Eitem 3** yn eich perswadio bod Gwrthryfel Casnewydd yn fygythiad i'r llywodraeth? **[20]**

**Eitem 2:** Dehongliad Kenneth Budd, arlunydd o Loegr, o Wrthryfel Casnewydd yn ei furlun *The Chartist Mural* (a grëwyd yn 1978), a oedd wedi'i leoli yng nghanol dinas Casnewydd. Mae'r faner yn nodi "300 etholaeth a nifer cyfartal o etholwyr".




**Eitem 3:** Mae Syr John Campbell, a oedd yn erlyn, yn rhoi ei farn ar Wrthryfel Casnewydd i'r rheithgor, mewn trawsgrifiad o gofnodion swyddogol treial John Frost yn Nhrefynwy (1839)

Wrth gyrraedd Casnewydd, nod y Siartwyr oedd ymosod ar y milwyr oedd yno. Roedden nhw eisiau cymryd rheolaeth dros y dref. Doedd hwn ddim yn gyfarfod i ddeisebu'r Frenhines na'r Senedd. Eu nod oedd defnyddio grym arfog i newid cyfraith y wlad hon.

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| Cynnwys Dangosol |
|---|
| Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.<br><br>• Mae'r eitemau yn dwyn perswâd gan fod y ddau'n awgrymu bod Gwrthryfel Casnewydd yn fygythiad i'r llywodraeth. Mae Eitem 2 yn cyfeirio at y trais rhwng y Siartwyr sy'n cario arfau ar ochr chwith y llun a'r milwyr sy'n tanio arnynt ar ochr dde'r llun. Nodir hyn hefyd yn Eitem 3, sy'n dangos bod y Siartwyr yn anelu at ddefnyddio grym i feddiannu Casnewydd gyda'r nod o orfodi'r llywodraeth i newid y deddfau yn ymwneud â phleidleisio.<br>• Fodd bynnag, mae'r syniad mai gweithred olaf o anobaith gan bobl a oedd eisiau i'r llywodraeth eu hachub rhag y newyn a'r tlodi o ganlyniad i'r amodau gan y meistri haearn oedd Gwrthryfel Casnewydd, yn hytrach na her uniongyrchol i sut yr oedd y wlad ei rheoli, yn dwyn mwy o berswâd.<br>• Byddai eitem 2, sy'n ddehongliad modern, yn gallu cynnig trosolwg o'r cyfnod. Gellir dadlau ei fod yn cynnig disgrifiad credadwy o uchafbwynt y gwrthryfel yng nghanol Casnewydd, gyda'r cafeat ei bod yn ymddangos ei fod yn cydymdeimlo â safbwynt y Siartwyr gan ei fod yn dod o furlun cyhoeddus a grëwyd gan artist i goffáu'r digwyddiad. Serch hynny, byddai'n rhaid i'r artist Kenneth Budd fod wedi gwneud gwaith ymchwil i lunio ei ddehongliad er mwyn perswadio'r awdurdodau lleol fod ei safbwynt o'r digwyddiadau yn gywir cyn iddynt ganiatáu iddo ei roi mewn man cyhoeddus.<br>• Mae eitem 3, ar y llaw arall, yn ffynhonnell gyfoes, ac mae'r ddadl bod Gwrthryfel Casnewydd yn fygythiad i'r llywodraeth yn cael ei hategu gan yr awgrym fod y Siartwyr wedi cael eu harestio yng nghanol eu gwrthryfel treisgar i gymryd rheolaeth dros Gasnewydd. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yn cael ei nodi ei fod yn gyfyngedig iawn o ran ei sylw i'r gwrthryfel, heb unrhyw ymdeimlad o'r digwyddiadau a arweiniodd at yr olygfa hon, na'r canlyniadau.<br>• Ar y cyfan, mae'r eitemau yn dwyn perswâd bod Gwrthryfel Casnewydd yn fygythiad i'r llywodraeth, gan eu bod yn nodi bod y Siartwyr yn bwriadu ymddwyn yn dreisgar pan oeddent yn ymosod ar Gasnewydd, er nad yw'n esbonio beth oedd wedi ennyn yr ymdeimlad hwnnw. Mae'n debygol y bydd casgliad bod dod ag arfau i Gasnewydd i orfodi'r awdurdodau i wrando ar eu gofynion wedi bod yn fygythiad difrifol iawn i'r llywodraeth. |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| Band | AA2 | AA3 |
|---|---|---|
| **5** | **9–10 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **9–10 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda chefnogaeth gynhwysfawr.<br>• Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus. |
| **4** | **7–8 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **7–8 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda lefel dda o gefnogaeth.<br>• Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus. |
| **3** | **5–6 marc**<br>• Ceir rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn gosod, ond mae'n anghyson. | **5–6 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd, gyda rhywfaint o gywirdeb.<br>• Barn anghyson wedi'i chyrraedd gyda rhywfaint o gefnogaeth. |
| **2** | **3–4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **3–4 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau.<br>• Barn anghyflawn wedi'i chyrraedd heb fawr o gefnogaeth. |
| **1** | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau.<br>• Barn arwynebol wedi'i chyrraedd. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Cynllun marcio ar gyfer Adran B

| Cwestiwn 5 | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (a) | Beth yw'r term a ddefnyddir am y gred bod ymladd rhyfeloedd yn anghyfiawn? | | | | |
| | **Heddychiaeth** | 1 | | | 1 |
| (b) | Pryd ddigwyddodd Cwymp Wall Street? | | | | |
| | **1929** | 1 | | | 1 |
| (c) | Beth yw'r term a ddefnyddir am gyfyngu ar y bwyd y gallai pobl ei brynu yn ystod y rhyfel? | | | | |
| | **Dogni** | 1 | | | 1 |
| (ch) | Pwy sefydlodd y GIG yn 1948? | | | | |
| | **Aneurin Bevan** | 1 | | | 1 |
| (d) | Beth yw'r term a ddefnyddir am y grŵp o fewnfudwyr o'r Ymerodraeth Brydeinig a'r Gymanwlad a ddaeth i fyw a gweithio yn y Deyrnas Unedig ar ôl yr Ail Ryfel Byd? | | | | |
| | **Cenhedlaeth Windrush** | 1 | | | 1 |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| Cwestiwn 6 | | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|
| Esboniwch pam y bu newidiadau mewn cyfleoedd hamdden yng Nghymru yn ystod y 1950au. | | **[10]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Un o'r prif resymau dros y newidiadau mewn cyfleoedd hamdden yn ystod y cyfnod hwn oedd bod gan bobl fwy o amser ac arian i fuddsoddi mewn cyfleoedd hamdden. Roedd gweithwyr yn y 1950au yn cael cyflogau uwch ac yn gweithio llai o oriau nag y bydden nhw wedi gwneud cyn yr Ail Ryfel Byd. Roedd hyn yn rhoi mwy o amser iddynt a mwy o arian i'w wario ar weithgareddau hamdden. Roedd twf cyfoeth a phrynwriaeth yn yr 1950au yn golygu bod prisiau nwyddau a gwasanaethau hamdden yn fwy fforddiadwy i bobl oedd yn gweithio'n rheolaidd.
- Arweiniodd datblygiadau technolegol at newidiadau mewn cyfleoedd hamdden hefyd. Gyda datblygiad y jiwcbocs a chwaraewyr recordiau, ynghyd â dyfeisiau cludadwy newydd fel y radio transistor neu'r dansette, roedd yn haws gwrando ar gerddoriaeth ar y radio neu ar ffurf recordiau finyl. Ar yr un pryd, daeth y gwasanaeth teledu oedd yn ehangu a setiau teledu mwy fforddiadwy ag ystod eang o raglenni i ystafelloedd byw pobl gyffredin.
- Bu cynnydd hefyd yn y cyfleoedd i dwristiaeth. Roedd datblygiadau ym maes teithio a thrafnidiaeth fel ceir modur ac awyrennau wedi rhoi mwy o gyfleoedd i dwristiaeth yng Nghymru a thu hwnt yn ystod y cyfnod hwn. Roedd y diwydiant twristiaeth wedi ymateb i hyn drwy annog pobl i ymweld â threfi glan môr a safleoedd treftadaeth yn ystod eu hamser hamdden. Roedd gwersylloedd gwyliau o'r 1930au a pharciau cenedlaethol o'r 1950au hefyd yn cynnig lleoliadau dymunol i bobl ymweld â nhw yng Nghymru a'r DU.

| Band | AA1 | AA2 |
|---|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. | **5 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| 4 | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. | **4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. | **3 marc**<br>• Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson. |
| **2** | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. | **2 farc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd |
| **1** | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. | **1 marc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| Cwestiwn 7a | | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|
| Rhowch amlinelliad o'r cynnydd yn y gefnogaeth i Blaid Cymru yn ystod y 1950au. | | **[5]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Roedd pryder cynyddol am ddirywiad yn nifer y bobl oedd yn siarad Cymraeg a diffyg cydnabyddiaeth swyddogol i'r Gymraeg, a arweiniodd at gynnydd yn y gefnogaeth i'r blaid. Roedd Plaid Cymru wedi bod yn ymgyrchu ar y mater hwn ers y 1920au ond erbyn y 1950au roedd y dirywiad yn amlycach nag erioed.
- Erbyn y 1950au, roedd Plaid Cymru, y blaid wleidyddol Gymreig, yn ymgyrchu i ethol ASau Senedd y DU ac i gynghorau lleol gael mwy o ddylanwad gwleidyddol er budd pobl Cymru, gan ychwanegu at ei ffocws cynharach ar faterion diwylliannol Cymru.
- Roedd llawer o faterion yn effeithio ar bobl Cymru yn ystod y cyfnod hwn, yn amrywio o gau pyllau glo i foddi Cwm Tryweryn er mwyn darparu dŵr i Lerpwl. Roedd nifer o Gymry yn teimlo nad oedd y pleidiau gwleidyddol traddodiadol fel Llafur a'r Ceidwadwyr yn gwrando ar eu pryderon ynglŷn â'r materion hyn ac roeddent eisiau plaid fyddai'n gwrando.

| Band | AA1 |
|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| 4 | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| 2 | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| 1 | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| 0 | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| Cwestiwn 7b | | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|
| Pa mor werthfawr yw **Eitem 1** i'n helpu i ddeall dylanwad cenedlaetholdeb Cymreig yn ystod y 1950au?<br><br>**Eitem 1:** David Williamson, newyddiadurwr gwleidyddol, yn ysgrifennu yn yr erthygl "The Story of the outrage that has shaped Welsh politics for more than five decades" ar wefan newyddion *Wales Online* (2016)<br><br>Mae boddi pentref Cymraeg Capel Celyn er mwyn creu cronfa ddŵr i gyflenwi dŵr i drigolion Lerpwl yn ddigwyddiad allweddol yn hanes modern Cymru. Roedd dicter y byddai trigolion Cymraeg eu hiaith yn cael eu symud a bod adnoddau naturiol yn cael eu cymryd oddi wrth Gymru. Roedd yna apeliadau ar gyngor dinas Lerpwl i achub y pentref, ond doedden nhw ddim yn ddigon i ddod â'r cynlluniau i ben. | | **[15]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Mae'r eitem yn werthfawr i'n helpu i ddeall dylanwad cenedlaetholdeb Cymreig yn y 1950au gan ei bod yn esbonio bod boddi Capel Celyn i greu cronfa ddŵr i Lerpwl wedi ennyn llawer o ddicter bod Lloegr yn ecsbloetio adnoddau Cymru a'i diffyg gofal dros gymunedau Cymraeg. Fodd bynnag, mae ei werth yn gyfyngedig gan ei fod yn canolbwyntio ar un enghraifft proffil uchel iawn a effeithiodd ar nifer fach o aelwydydd yn Nyffryn Tryweryn yn unig. Nid yw'n esbonio chwaith beth oedd canlyniad yr apêl hon.
- Mae gwerth i'r eitem hefyd gan ei bod yn nodi bod dicter ynglŷn â'r ffaith bod cymuned Gymraeg ac adnoddau naturiol o Gymru yn cael eu haberthu er mwyn cyflenwi dŵr i ddinas yn Lloegr yn rhad ac am ddim. Ond mae diffyg ystyriaeth o faint y gefnogaeth i'r cenedlaetholwyr Cymreig o ran eu gwrthwynebiad i hyn, a'r newid yn nylanwad cenedlaetholdeb Cymreig dros amser.
- Mae'r wybodaeth y mae'r eitem hon – sy'n ddehongliad – yn ei chynnwys o bosib yn gywir, oherwydd byddai'r newyddiadurwr David Williamson yn tebygol a'i hysgrifennodd wedi ymchwilio i'r pwnc er mwyn llunio ei erthygl, er bod o ddim yn hanesydd. Nid yn unig y byddai'r gyfraith arfaethedig a chyfarfodydd cyngor dinas Lerpwl wedi cynhyrchu tystiolaeth ysgrifenedig o'r hyn oedd yn cael ei gynnig, ond byddai gweithgareddau'r protestwyr a chyfweliadau gyda'r rhai a gymerodd ran hefyd wedi cael eu hystyried wrth ysgrifennu'r erthygl hon.
- Gellir awgrymu hefyd bod gwerth y dehongliad yn cael ei gyfoethogi gan arwyddocâd faint o wybodaeth a fyddai wedi bod ar gael i David Williamson gan fod yr erthygl yn cael ei hysgrifennu drigain mlynedd ar ôl y digwyddiadau sy'n cael eu disgrifio. Ar y llaw arall, gallai'r safbwyntiau a fynegir gael eu tanseilio gan fod yr erthygl, fel y mae'r gair "dicter" yn y teitl yn ei awgrymu, wedi'i hysgrifennu o safbwynt protestwyr cenedlaetholgar Cymru.



© WJEC CBAC Ltd 2024.

- Ar y cyfan, gellid awgrymu bod yr eitem yn werthfawr gan ei bod yn rhoi gwybodaeth am ymateb pobl Capel Celyn, a'u cefnogwyr cenedlaetholgar, i'r cynigion i ddinistrio cymuned Gymraeg yng Nghymru er mwyn cyflenwi dŵr i ddinas Lerpwl. Neu gellir dadlau bod ffactorau cyfyngol fel y ffaith ei bod wedi'i hysgrifennu o safbwynt y protestwyr, yn ei gwneud yn llai, yn hytrach nag yn fwy gwerthfawr er mwyn ein helpu ni i ddeall y mater hwn.

| Band | AA2 | AA3 |
|---|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **9–10 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda chefnogaeth gynhwysfawr.<br>• Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus. |
| 4 | **4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **7–8 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda lefel dda o gefnogaeth.<br>• Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus. |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson. | **5–6 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd, gyda rhywfaint o gywirdeb.<br>• Barn anghyson wedi'i chyrraedd gyda rhywfaint o gefnogaeth. |
| 2 | **2 farc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn gyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **3–4 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau.<br>• Barn anghyflawn wedi'i chyrraedd heb fawr o gefnogaeth. |
| 1 | **1 marc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau.<br>• Barn arwynebol wedi'i chyrraedd. |
| 0 | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| Cwestiwn 8a | | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|
| Disgrifiwch ymateb yr awdurdodau i Derfysgoedd Hil De Cymru yn 1919. | | **[5]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Roedd ymateb yr heddlu yn araf iawn i ddechrau gan eu bod wedi'u llethu gan raddfa'r trais. Wrth i'r terfysgoedd fynd yn eu blaen, fe wnaethon nhw arestio mwy a mwy o bobl, er bod nifer anghymesur o bobl o gymunedau ethnig leiafrifol wedi'u harestio o'u cymharu â phobl o gymunedau gwyn Cymreig. Roedd yr heddlu dan cymaint o bwysau ar adegau fel bod milwyr yn cael eu hanfon i'w helpu.
- Arestiwyd llawer o fewnfudwyr du ac Asiaidd a'u rhoi ar brawf wedi'u cyhuddo o gario arfau ac o ymosod ar y bobl wyn lleol er mai nhw oedd y dioddefwyr yn hytrach na'r rhai oedd yn annog y trais. Cafodd yr ychydig o bobl wyn a gafodd eu herlyn eu canfod yn euog o droseddau llawer llai difrifol.
- Sefydlodd Swyddfa Drefedigaethol y llywodraeth a'r Bwrdd Masnach gynllun ailwladoli i annog mewnfudwyr i ddychwelyd i'w mamwlad. Roedd cymhellion ariannol, a rhoddwyd pwysau ar lawer o bobl i adael o ganlyniad i'r cynllun hwn. Roedd Gorchymyn Estroniaid y 1920au, a ychwanegwyd at Ddeddf Mewnfudo 1919, yn ei gwneud hi'n anoddach o lawer i fewnfudwyr weithio neu ymgartrefu yn y DU.

| Band | AA1 |
|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| 4 | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| 2 | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| 1 | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| 0 | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| Cwestiwn 8b | | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|
| I ba raddau mae **Eitem 2** ac **Eitem 3** yn eich perswadio bod tensiynau ar sail hil yn arwyddocaol yn Ne Cymru yn 1919?<br><br>**Eitem 2** Addasiad o'r llyfr hanes *Black and British – A Forgotten History* gan yr hanesydd a'r darlledwr teledu David Olusoga (2016)<br><br>Ym mis Mehefin, daeth trais i strydoedd Casnewydd yng Nghymru. Ymosodwyd ar lety dynion du a chartrefi teuluoedd du, a'u difetha. Fe ymledodd y trais hiliol i borthladd Y Barri yng Nghymru, ac erbyn 11 Mehefin roedd wedi lledaenu i Tiger Bay yng Nghaerdydd. Fe barodd y terfysgoedd yng Nghaerdydd am wythnos a chollodd tri dyn eu bywydau. Roedd gangiau mawr yn crwydro'r strydoedd yn chwilio am ddynion du.<br><br>**Eitem 3** Adroddiad yn y papur newydd o Gymru, *The Western Mail* (12 Mehefin 1919)<br><br>Aeth y dorf o derfysgwyr i Herbert Street ym Mae Caerdydd lle'r oedd gwybodaeth wedi cael ei rhannu am dŷ lle'r oedd sawl dyn du yn byw. Ni fu unrhyw oedi. Ymosododd y dorf ar y tŷ ar unwaith, gan dorri'r ffenestri a mynnu eu ffordd i mewn i'r adeilad. Cafodd y tu mewn ei ddinistrio'n llwyr a thaflwyd y dodrefn i'r ffordd. | | **[20]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Mae'r eitemau'n dwyn perswâd gan fod y ddau yn awgrymu bod tensiynau sylweddol ar sail hil yn Ne Cymru yn 1919. Mae eitem 2 yn cyfeirio at ymosodiadau ar gartrefi pobl dduon yng Nghasnewydd, a ledodd wedyn i'r Barri a Chaerdydd, a fyddai'n parhau am wythnos. Nodir hyn hefyd yn Eitem 3, sy'n cynnwys manylion am un o'r ymosodiadau hyn ar dŷ lle'r oedd sawl dyn du yn byw.
- Fodd bynnag, mae'r syniad nad trais hiliol yr ymosodiadau hyn eu hunain yn unig oedd yn arwyddocaol am y tensiynau hiliol hyn, ond hefyd bod yr heddlu a'r llysoedd yn beio'r dynion du a'u teuluoedd am y trais, gan honni bod y dioddefwyr yn euog o droseddau, yn dwyn mwy o berswâd. Nid oes unrhyw beth yn yr eitemau hyn chwaith am achosion y tensiynau, yn enwedig eu hamseru, wrth i ddynion yn cael eu rhyddhau o'r fyddin ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Byddai eitem 2, sy'n ddehongliad modern, yn gallu cynnig trosolwg o'r cyfnod. Wedi'i ysgrifennu gan hanesydd, gellir dadlau ei fod yn cynnig dadansoddiad credadwy o densiynau hiliol, gyda'r cafeat mai dim ond trosolwg o'r mater yn ystod y cyfnod hwn y byddai'n ei gynnig yn hytrach nag astudiaeth fanwl gan ei fod yn dod o lyfr hanes cyffredinol am fywydau pobl dduon Prydain, dros gyfnod hir o amser. Fodd bynnag, gan ei fod yn dod o lyfr hanes sy'n canolbwyntio ar hanes pobl ddu ym Mhrydain, bydd yr awdur yn deall cyd-destun y tensiynau hiliol hyn o ran eu hachosion, yr hyn ddigwyddodd, a'u canlyniadau.



© WJEC CBAC Ltd 2024.

- Mae eitem 3, ar y llaw arall, yn ffynhonnell gyfoes, ac mae'r ddadl bod tensiynau hiliol yn 1919 yn arwyddocaol yn cael ei hategu gan yr awgrym bod trais wedi'i gyfeirio'n benodol at y tai hynny yng Nghaerdydd lle'r oedd dynion du yn byw. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yn cael ei nodi, er ei bod yn bosibl bod y newyddiadurwr a ysgrifennodd yr adroddiad hwn yn disgrifio'r hyn a welodd, nid oes unrhyw arwydd o ba mor ymwybodol ydoedd o'r amgylchiadau a arweiniodd at y trais. Gellir nodi hefyd, gan fod hwn yn dod o bapur newydd cyfoes yng Nghymru, efallai bod y stori wedi'i dramateiddio er mwyn ennyn diddordeb y darllenwyr. Dim ond disgrifiad rhannol y gall eitem 3 ei roi o'r effeithiau tensiynau hiliol yn Ne Cymru gan ei bod yn canolbwyntio ar un digwyddiad mewn un lle yn unig.
- Ar y cyfan, mae’r eitemau yn dwyn perswâd bod tensiynau hiliol sylweddol yn Ne Cymru yn 1919, gan eu bod yn nodi’r lefelau eithafol o drais yr oedd mewnfudwyr yng Nghaerdydd a Chasnewydd yn eu hwynebu yn ystod y terfysgoedd hil hyn. Mae'n debygol y bydd casgliad eu bod yn ganlyniad i densiynau hiliol parhaus a bod hynny wedi arwain at drin y mewnfudwyr a ddioddefodd y trais hwn yn wael iawn.

| Band | AA2 | AA3 |
|---|---|---|
| **5** | **9–10 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **9–10 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda chefnogaeth gynhwysfawr.<br>• Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus. |
| **4** | **7–8 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **7–8 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda lefel dda o gefnogaeth.<br>• Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus. |
| **3** | **5–6 marc**<br>• Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson. | **5–6 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd, gyda rhywfaint o gywirdeb.<br>• Barn anghyson wedi'i chyrraedd gyda rhywfaint o gefnogaeth. |



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **3–4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn gyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **3–4 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau.<br>• Barn anghyflawn wedi'i chyrraedd heb fawr o gefnogaeth. |
| **1** | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau.<br>• Barn arwynebol wedi'i chyrraedd. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd 2024.

# Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu: Uned 1.5

| Cwestiwn | Marciau | Cynnwys y fanyleb | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1.5.1 | | | | | | 1.5.2 | | | | | | 1.5.3 | | | | | | 1.5.4 | | | | | | 1.5.5 | | | | | |
| | | 1.5.1ai | 1.5.1aii | 1.5.1bi | 1.5.1bii | 1.5.1ci | 1.5.1cii | 1.5.2ai | 1.5.2aii | 1.5.2bi | 1.5.2bii | 1.5.2ci | 1.5.2cii | 1.5.3ai | 1.5.3aii | 1.5.3bi | 1.5.3bii | 1.5.3ci | 1.5.3cii | 1.5.4ai | 1.5.4aii | 1.5.4bi | 1.5.4bii | 1.5.4ci | 1.5.4cii | 1.5.5ai | 1.5.5aii | 1.5.5bi | 1.5.5bii | 1.5.5ci | 1.5.5cii |
| 1 | 5 | x | | | | | | | | | x | | | | x | | | | | | | | | | x | | | x | | | |
| 2 | 10 | | | | | | | x | x | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 3a | 5 | | | | x | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 3b | 15 | | | x | x | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4a | 5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | x | | | | | | | | | | | | |
| 4b | 20 | | | | | | | | | | | | | | | | | x | x | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **60** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd 2024.

# Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu: Uned 1.6

| | | Cynnwys y fanyleb | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn** | **Marciau** | **1.6.1** | | | | | | **1.6.2** | | | | | | **1.6.3** | | | | | | **1.6.4** | | | | | | **1.6.5** | | | | | |
| | | 1.6.1ai | 1.6.1aii | 1.6.1bi | 1.6.1bii | 1.6.1ci | 1.6.1cii | 1.6.2ai | 1.6.2aii | 1.6.2bi | 1.6.2bii | 1.6.2ci | 1.6.2cii | 1.6.3ai | 1.6.3aii | 1.6.3bi | 1.6.3bii | 1.6.3ci | 1.6.3cii | 1.6.4ai | 1.6.4aii | 1.6.4bi | 1.6.4bii | 1.6.4ci | 1.6.4cii | 1.6.5ai | 1.6.5aii | 1.6.5bi | 1.6.5bii | 1.6.5ci | 1.6.5cii |
| 5 | 5 | | x | | | | | | x | | | | | x | | | | | | | x | | | | | | | x | | | |
| 6 | 10 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | x | x |
| 7a | 5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | x | | | | | | | |
| 7b | 15 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | x | x | | | | | | |
| 8a | 5 | | | | | | x | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 8b | 20 | | | | | x | x | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **60** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd 2024.

**Hawlfraint**

Mae'r eitemau a ddefnyddir yn yr adnodd hwn yn cael eu defnyddio at ddibenion addysgiadol (nad ydynt yn fasnachol) yn unig, i hwyluso'r dysgu ac ar gyfer dadansoddi critigol. Darparwyd ffurflen gydnabyddiaeth ar gyfer pob eitem. Hyd eithaf ein gwybodaeth, mae'r holl eitemau'n cael eu defnyddio mewn cydymffurfiaeth â'r Polisi Defnydd Teg; os oes hepgoriadau neu anghywirdebau, rhowch wybod i ni fel ein bod yn gallu gwneud unrhyw gywiriadau angenrheidiol.datblygucymwysterau@cbac.co.uk

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd 2024.